Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd

7 Hydref 2015

Annwyl Darren

Yn dilyn ein hymddangosiad yn eich Pwyllgor ar 29 Medi, rwy'n ysgrifennu gyda'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani.  Mae'r wybodaeth wedi'i nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu a'i adborth ac, yn arbennig, am y sylwadau am wefan y Comisiwn.  Ar 1 Hydref, cododd y Pwyllgor Cyllid hefyd faterion tebyg ynglŷn â hygyrchedd y wefan a pha mor hawdd ydyw i'w defnyddio.  Rwyf yn sicr y bydd y Comisiwn yn dymuno gofyn am roi blaenoriaeth i adolygu'r wefan a nodi gwelliannau y gellid eu gwneud yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Ymagwedd y Comisiwn yw ceisio gweithredu gyda didwylledd, tryloywder ac eglurder bob amser. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei roi i chi i gynorthwyo'r Pwyllgor, cofiwch roi gwybod imi.

Yn gywir



**David Melding AC, y Dirprwy Lywydd**

cc   Comisiynwyr y Cynulliad; Claire Clancy; Nicola Callow

**ATODIAD**

**Comisiwn y Cynulliad: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn ymddangosiad yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 29 Medi, 2015**

1. Rhoi i'r Pwyllgor yr Adolygiad Archwilio Mewnol o effeithiolrwydd y Comisiwn ynghyd â'r cynllun gweithredu cyfatebol.

   Mae'r adroddiad a'r cynllun gweithredu ynghlwm.

   Mynegodd y Pwyllgor hefyd ddiddordeb yng nghyfraniad ein Cynghorwyr Annibynnol. Mae'r adolygiad hwn o effeithiolrwydd y Comisiwn yn cofnodi: "Commissioners unanimously value the contribution made by the Independent Advisers. They add an alternative and welcome perspective to discussions. Contributions may be brief but add value to the process, succinctly summarise the key issues and offer a further independent perspective." I roi gwybodaeth ychwanegol am y Cynghorwyr Annibynnol, mae'r dogfennau canlynol hefyd ynghlwm:

   - Adroddiad cryno Archwilio Mewnol ar y Cynghorwyr Annibynnol;
   - pecyn recriwtio 2012, sy'n cynnwys manylion am y cyfrifoldebau a'r tâl ar gyfer y swyddi hyn;
   - dyfyniadau perthnasol o'r adroddiad i Gomisiwn y Cynulliad ym mis Hydref 2012 ar benodi Cynghorwyr Annibynnol, sy'n cynnwys manylion am y broses recriwtio.

2. Rhoi manylion am y cyllidebau a neilltuwyd i feysydd gwaith sgyrsiau cenedlaethol Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus a Phleidleisio@16?

   *Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus*

   Mae ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus y Llywydd wedi cynnwys menywod o bob grŵp oedran a chefndir, i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ragor o fenywod wneud cais am swyddi a phenodiadau cyhoeddus, a'u derbyn.

   Mae cynyddu cynrychiolaeth seneddol menywod yn un elfen o'r ymgyrch ac eleni sefydlwyd y Cawcws Menywod mewn Democratiaeth. Fe'i cadeirir gan y Llywydd ac mae'n cynnwys grŵp trawsbleidiol o Aelodau Cynulliad. Aeth y Cawcws ati i ddysgu gan seneddau eraill ledled y byd sut i gynyddu cynrychiolaeth seneddol menywod, a rhannu'r arfer gorau. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd y Cawcws ei adroddiad gyda deg argymhelliad yn amlinellu camau gweithredu i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu menywod wrth ymgeisio am swyddi cyhoeddus.

Mae tair o'r 14 menyw sy'n cael eu mentora, ac a gafodd hyfforddiant fel rhan o’r Cynllun Datblygu Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, wedi gwneud cais llwyddiannus am swyddi mewn bywyd cyhoeddus. Mae dwy arall yn sefyll mewn etholiad, y naill yn etholiad y Cynulliad yn 2016 a'r llall mewn etholiad cyngor tref.

Cynhaliwyd digwyddiadau #POWiPL ar ystâd y Cynulliad, gan gynnwys un i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2015. Cafodd y Senedd ei goleuo'n borffor fel rhan o'r ymgyrch fyd-eang #PaintitPurple i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n parhau i fodoli o ran cydraddoldeb rhywiol. Cynhaliwyd digwyddiad #POWiPL yn Wrecsam hefyd fel rhan o wythnos ddigwyddiadau #SeneddWrecsam ym mis Mawrth.

Cafwyd darlithoedd a sgyrsiau hefyd gan Julia Gillard, Janet Street-Porter, Shami Chakrabarti a’r Farwnes Greenfield.

Dangosir cyfanswm y gwariant ar faes gwaith #POWiPL fesul blwyddyn ac yn ôl y math o wariant, hyd at fis Medi 2015, yn y tablau isod: -

| Financial year | £ |
|---|---|
| 2011-12 | £ 1,815.70 |
| 2012-13 | £ 6,314.68 |
| 2013-14 | £ 37,390.49 |
| 2014-15 | £ 55,484.35 |
| 2015-16 | £ 16,755.13 |
| | £ 117,760.35 |

| Expenditure | £ |
|---|---|
| Promotional Items | £ 11,580.40 |
| Events & Visits | £ 35,265.39 |
| Chwarae Teg | £ 40,000.00 |
| Portal Costs | £ 30,914.56 |
| | £ 117,760.35 |

Mae costau staffio sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn ychwanegol at y costau hyn ac maent yn rhan o gyllideb fwy y maes Gwasanaeth Cymorth i’r Comisiwn ac i’r Aelodau.

Mae rhan o'r gwariant yn ymwneud â chontract gyda Chwarae Teg i ddatblygu a rhoi cymorth parhaus i safle porth ar y we, dros ddwy flynedd o fis Chwefror 2014. Hwn oedd y £40k y cyfeiriwyd ato yn sesiwn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; cyfanswm gwerth y contract yw £50k. Cafodd hyn ei gaffael yn unol â chanllawiau caffael Comisiwn y Cynulliad ac o fewn awdurdod dirprwyedig rheolwyr cyllideb. Craffodd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau arno hefyd ym mis Medi 2013.

Talwyd £31k ychwanegol o gostau cynnal a datblygu porth i Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched a Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth.

*Pleidleisio@16?*

Un o brif feysydd gwaith ymgysylltu â phobl ifanc oedd y sgwrs genedlaethol, Pleidleisio@16?

Gofynnodd yr ymgyrch chwe mis hon, a gynhaliwyd yn erbyn cefndir o newidiadau cyfansoddiadol ehangach yn y DU, i bobl ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru am eu barn ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16. Rydym wedi cael ymateb gwych, gyda dros 10,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys y wefan benodedig i bobl ifanc, www.dygynulliad.org; mewn cyfarfodydd grwpiau ieuenctid gyda'r timau Addysg ac Allgymorth; a thrwy ddefnyddio pecynnau gwybodaeth a grëwyd yn arbennig i ganiatáu i bobl ifanc gynnal y drafodaeth eu hunain. Mae gwaith wedi cael ei wneud gydag Aelodau'r Cynulliad hefyd i gasglu barn pobl ifanc drwy gyfrwng tystiolaeth fideo a lluniau.

Roedd yr ymgyrch 'Pleidleisio@16?' yn canolbwyntio ar gael pobl ifanc i gwblhau arolwg ar-lein neu arolwg copi caled ynglŷn â gostwng yr oedran pleidleisio a phleidleisio yn gyffredinol. Roedd cost yr ymarfer hwn yn fach iawn.

Aeth y bws allan ar dri achlysur yn benodol i hyrwyddo 'Pleidleisio@16?', i gael cynnwys fideo a lluniau ar gyfer yr ymgyrch ac i gael cwblhau copïau caled o'r arolwg. Aeth y bws i Ysgol Tasker Milward, Ysgol Dwr-y-Felin ac ar achlysur arall aeth i ddau leoliad mewn un diwrnod (Canol Tref Trefynwy a Chlwb Ieuenctid yn Y Fenni). Roedd costau mynd â'r bws i'r lleoliadau hyn yn fach iawn a thalwyd amdano o gyllideb hyrwyddo bresennol 2015-16.

Roedd un gost ychwanegol o tua £1,900.00 am hysbysebu ar Facebook.

3. <u>Cytunwyd i anfon nodyn am berfformiad incwm gwirioneddol Adeilad y Pierhead yn erbyn y perfformiad incwm a ragwelwyd.</u>

Yn wreiddiol, roedd y Pierhead yn cael ei brydlesu i ddarparu llety ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau a oedd yn cynnwys canolfan ymwelwyr y Pierhead, siop y Cynulliad, ystafell addysg ar gyfer rhaglenni addysg yn ymwneud â'r cwricwlwm, ystafelloedd cyfarfod ac ystafell i'r Archwilydd Cyffredinol.

Roedd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2000 yn argymell prynu'r brydles, er mwyn lleihau'r gost barhaus o daliadau rhent. Ym mis Ebrill 2002, cyflwynwyd achos busnes i Bwyllgor y Tŷ pan gymeradwyodd yr Aelodau'r argymhelliad i brynu'r adeilad.

Ni chafodd adeilad y Pierhead ei brynu'n wreiddiol fel ased i greu incwm ac, felly, ni ragwelwyd unrhyw incwm yn ystod y broses o bennu'r gyllideb. Fel ased, mae'r adeilad eiconig hwn yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi nod strategol y Comisiwn o ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru. Ers 2006 mae'r adeilad wedi cael 1,304,063 o ymwelwyr.

Ar hyn o bryd mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, uned ymchwil gyfansoddiadol fwyaf blaenllaw Cymru, i weithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r bartneriaeth hon yn rhoi i'r Cynulliad fynediad at waith ymchwil perthnasol, o ansawdd gan alluogi i ddeddfwrfa Cymru barhau i ddatblygu systemau deddfu a chraffu cadarn a fydd yn arwain at ddeddfau sy'n ymateb i anghenion pobl Cymru. Ni chodir tâl ar Ganolfan Llywodraethiant Cymru am ddefnyddio'r adeilad.

Mae'r adeilad hefyd yn lle i gynnal digwyddiadau, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr ac rydym wedi buddsoddi mewn cyfarpar clyweled a llwyfan sydd o gymorth i gyflwyno digwyddiadau o safon fyd-eang. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cynhaliwyd cyfanswm o 123 o ddigwyddiadau ac, yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon, mae 70 o ddigwyddiadau eisoes wedi'u cynnal.

Mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn cynnwys cyfres o ddarlithoedd 'San Steffan ym Mae Caerdydd' Canolfan Llywodraethiant Cymru, ynghyd â chyfres o ddigwyddiadau llwyddiannus iawn i gefnogi ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus y Llywydd. Yn ogystal, cafodd Oriel y Dyfodol ei defnyddio i gynnal rhaglen o arddangosfeydd sydd wedi cynnwys arddangosfa o waith myfyrwyr Academi Gelf Cymru. I ategu'r digwyddiadau hyn, cafwyd nifer o ddigwyddiadau sgwrsio, gyda Guto Harri yn sgwrsio gyda'r Arglwydd Wigley a gyda'r Arglwydd Kinnock. Yn ogystal, cafodd y lleoliad ei ddefnyddio i gynnal Gwobrau Cymru Daclus a Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru. Nid ydym yn codi tâl am ddigwyddiadau o'r fath.

Credwn fod yr amrywiaeth hon o weithgareddau yn cynrychioli gwerth da iawn am arian yn gyfnewid am gostau blynyddol y Pierhead, sydd oddeutu £175k y flwyddyn.

## Eitemau ychwanegol

Gwerth Trosglwyddo sy'n gyfwerth ag Arian Parod - Dadansoddiad o Newid

O ran y cwestiwn am fudd-daliadau pensiwn, efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor wybod, pan fydd codiad cyflog yn digwydd yn ystod y flwyddyn, mae'r effaith y mae hyn yn ei gael ar y budd-daliadau pensiwn bob amser yn fwy lle mae gan unigolyn nifer o flynyddoedd o wasanaeth blaenorol. Mae hyn oherwydd bod Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, hyd at 31 Mawrth 2015, yn gynllun cyflog terfynol. Diben y tabl budd-daliadau pensiwn yw dangos yr effaith y mae newidiadau mewn tâl yn ystod y flwyddyn yn ei gael ar hawl pensiwn cyflogai yng Nghynllun y Gwasanaeth Sifil.

Gan nad yw'r Cynllun yn cael ei ariannu, nid oes unrhyw gost uniongyrchol i'r Cynulliad. Mae'r gost, fel pob budd-dal o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, yn cael ei dalu yn y pen draw gan y trethdalwr drwy drethiant cyffredinol.

Mynd i'r afael â gofynion Symleiddio Trysorlys EM

Rydym yn falch o'n gwaith yn y Cynulliad ac mae ein hadroddiad blynyddol yn amlinellu ein cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn. Mae'r adroddiad blynyddol, ynghyd â dogfennau'r gyllideb flynyddol ac adroddiadau ar fesurau perfformiad corfforaethol, yn dangos yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni.

Rydym yn croesawu menter Trysorlys Ei Mawrhydi i symleiddio Adroddiadau blynyddol a chyfrifon, ond mae'n hanfodol bod y Comisiwn yn cadw cydbwysedd rhwng symleiddio a thryloywder.

Fel y gwyddoch eisoes, cynigiodd Trysorlys Ei Mawrhydi argymhellion lefel uchel yn gynnar yn 2014, a fyddai'n ailstrwythuro'r adroddiad blynyddol 'hanner-cyntaf' a'r datganiadau ariannol 'hanner-olaf' traddodiadol yn dri gofyniad adrodd mwy integredig yn seiliedig ar:

- Berfformiad - "adrodd y stori"
- Atebolrwydd; a
- Datganiadau ariannol

Rydym eisoes yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i ddod o hyd i opsiynau ar gyfer newid fel rhan o'n paratoadau ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16.

Caiff fformat newydd arfaethedig y cyfrifon, a fydd yn cyd-fynd â menter Symleiddio Trysorlys Ei Mawrhydi a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2015-16, ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2015.

# Adroddiad i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Adolygiad o Effeithiolrwydd y Comisiwn

## Cefndir a chwmpas

1. Yn ôl yr Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn y Cynulliad, mae'n ofynnol iddo wneud trefniadau i "werthuso ei effeithiolrwydd o bryd i'w gilydd."  Rwyf wedi cwblhau'r adolygiad hwn yn unol â'r egwyddor hon.

2. Dyma'r ail adolygiad ers mabwysiadu'r Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol yn 2011, yn dilyn yr adolygiad cychwynnol y cyflwynwyd adroddiad i'r Comisiwn yn ei gylch ym mis Ionawr 2013.

3. Casglwyd y dystiolaeth a arweiniodd at yr adroddiad hwn mewn trafodaethau â'r canlynol:

    - Y pum Comisiynydd;
    - Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn (Mair Barnes a Helena Feltham);
    - Y Prif Weithredwr a'r Clerc; a
    - Phrif Ysgrifennydd y Comisiwn.

4. Yn ogystal, adolygais gofnodion a phapurau cyfarfodydd y Comisiwn, sylw yn y wasg yn ddiweddar a cheisiadau i ddatgelu gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

5. Rwy'n ddiolchgar i bawb a'm helpodd â'r adolygiad.

## Crynodeb

6. Fy nghanfyddiad cyffredinol yw bod y Comisiwn wedi parhau i symud yn ei flaen ers yr adolygiad cyntaf. Yn benodol, mae'r Comisiynwyr wedi dangos gallu i oruchwylio prosiectau sylweddol yn effeithiol, fel TGCh ar gyfer y dyfodol, ac wedi datblygu ffocws strategol cliriach gan gynnwys datblygu cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.

7. Rwyf wedi cyflwyno nifer o argymhellion yn yr adroddiad hwn, a'u bwriad yw cefnogi'r Comisiwn yn ei ddatblygiad parhaus fel 'bwrdd llywodraethu' sy'n gweithredu'n dda ac yn effeithiol.

## Y canfyddiadau allweddol

8. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi prif gasgliadau'r adolygiad, wedi'u grwpio o dan bum pennawd hunan-esboniadol.

*Cyfarfodydd a threfniadau gweinyddol y Comisiwn*

9. O safbwynt cyfarfodydd a threfniadau gweinyddol, dyma ganfyddiadau fy adolygiad:

- Roedd y Comisiynwyr yn gyffredinol yn fodlon ar y trefniadau presennol ar gyfer cyfarfodydd. Derbynnir papurau a gwybodaeth mewn da bryd ac maent yn cynnwys digon o fanylion;

- Mae'r agendâu yn realistig a chyfarfodydd yn gyffredinol yn rhedeg ar amser. Fodd bynnag, cafwyd barn gymysg ynglŷn â chynnwys 'unrhyw fater arall' ar agendâu. Gellir ystyried bod hon yn eitem ddefnyddiol i alluogi Comisiynwyr i godi materion newydd ond ar yr un pryd gall dynnu sylw ac arwain at golli ffocws oddi ar brif fusnes y cyfarfod;

- Mae'r Comisiynwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a dderbyniant gan Brif Ysgrifennydd y Comisiwn a'r cymorth y mae'n ei ddarparu

i'r cyfarfodydd.  Mae Prif Ysgrifennydd y Comisiwn yn dechrau cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn y misoedd nesaf a bydd yn bwysig i'r Comisiwn gynnal gwasanaeth o'r un ansawdd yn ystod y cyfnod hwnnw;

- Mae'r Comisiynwyr yn ddieithriad yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan y Cynghorwyr Annibynnol.  Maent yn ychwanegu persbectif gwahanol a defnyddiol at drafodaethau.  Gall eu cyfraniadau fod yn fyr ond maent yn ychwanegu gwerth at y broses, yn crynhoi'r materion allweddol yn daclus ac yn cynnig safbwynt annibynnol ychwanegol;

- Roedd y bobl a gyfwelwyd yn canmol arddull gynhwysol y Llywydd a'i hagwedd drefnus ac effeithiol at gadeirio cyfarfodydd y Comisiwn.  Mae hi hefyd wedi pennu swyddogaeth eglur ar gyfer y Dirprwy Lywydd ac mae ei bresenoldeb yntau yng nghyfarfodydd y Comisiwn yn dal i gael ei werthfawrogi; ac

- Mae'r Comisiynwyr yn ystyried bod uwch reolwyr wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr at gyfarfodydd y Comisiwn ac wedi cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd ystyrlon a dealladwy.  Y brif enghraifft a nodwyd oedd yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a gyflwynwyd ynglŷn â'r Prosiect TGCh ar gyfer y dyfodol.

*Gweithio'n gorfforaethol*

10. Mae'r Comisiwn yn gorff corfforaethol a'r Comisiynwyr yw'r 'bwrdd llywodraethu' ar gyfer y sefydliad.  Fel y cyfryw, mae'n ofynnol iddynt weithredu'n gorfforaethol er budd y Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn hytrach na dim ond cynrychioli grwpiau plaid.  Yn hyn o beth:

- Mae'r Comisiynwyr i gyd yn teimlo eu bod yn gallu mynd â barn gorfforaethol, y gallant ei hamddiffyn, yn ôl at eu grwpiau plaid.  O ganlyniad, ychydig o gwestiynau a gyflwynir gan yr Aelodau ynglŷn

â'r Comisiwn, ac mae'r penderfyniadau a wneir gan y Comisiwn yn fwy eglur; ac

- Mae'r Comisiynwyr unigol wedi datblygu meistrolaeth gadarn o'u portffolios eu hunain, gan gymryd yr awenau wrth drafod eu meysydd cyfrifoldeb a meithrin perthynas waith effeithiol â staff y Comisiwn sydd â chyfrifoldeb am y meysydd hyn.

*Strategaeth*

11. Un o swyddogaethau allweddol y Comisiwn yw cytuno ar strategaeth y sefydliad a monitro i ba raddau y cyflawnir ei nodau a'i amcanion allweddol.  Yn hyn o beth:

- Neilltuir cyfarfodydd penodol i'r Comisiynwyr dreulio amser yn meddwl yn strategol.  Yn wir, yn ystod mis Ebrill 2014, cafodd y Comisiwn gyfarfod strategaeth hanner diwrnod heb agenda 'strwythuredig' gyda dim ond y Comisiynwyr a'r Prif Weithredwr a'r Clerc yn bresennol. Hwyluswyd y cyfarfod gan ddau Gynghorydd Annibynnol.  Treuliodd y Comisiynwyr gryn amser yn adfywio ac adnewyddu Strategaeth y Comisiwn ac yn nodi gweledigaeth y Comisiwn dros ddwy flynedd olaf y Pedwerydd Cynulliad; ac

- Mae'r Comisiwn wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol i gefnogi ei weledigaeth strategol.  Mae'r Comisiynwyr wedi cymryd cyfrifoldeb am y broses hon ac wedi ei goruchwylio.

*Cyfathrebu*

12. O ran cyfathrebu, dyma ganfyddiadau fy adolygiad:

- Nododd y rhai a gyfwelwyd fod y trefniadau cyfathrebu rhwng y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad yn parhau i fod yn sylweddol well na phrofiadau'r Trydydd Cynulliad;

- Mae'r cyfathrebu rhwng y Comisiynwyr, y Prif Weithredwr a staff uwch eraill yn gryf. Fel tystiolaeth o'r berthynas effeithiol sydd wedi ei sefydlu, crybwyllodd y rhai a gyfwelwyd fod prosiectau sylweddol wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus, a bod cyllideb y Comisiwn wedi'i chwblhau'n derfynol;
- Dywedodd y rhai a gyfwelwyd nad oedd llawer o ryngweithio â staff y Comisiwn islaw'r graddau uchaf un, gan fod y gwaith o redeg y sefydliad wedi cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'i Bwrdd Rheoli;
- Fodd bynnag, fe wnaeth fy adolygiad nodi un achlysur pan gafodd staff eu canmol yn uniongyrchol gan Gomisiynydd yn y Siambr pan oedd cyllideb y Comisiwn yn cael ei thrafod a'i chymeradwyo. Roedd hyn yn fodd grymus o gyfathrebu a chysylltu â'r corff ehangach o staff, a rhoddwyd linc i'r fideo ar fewnrwyd y staff;
- Mae rhai rhwystredigaethau a diffygion yn dal i fodoli yn y trefniadau cyfathrebu rhwng y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau;
- Mynegodd y rhai a gyfwelwyd rwystredigaeth ynglŷn â'r sylw negyddol a roddir i'r Cynulliad yn y cyfryngau lleol a'r ffaith nad ydynt yn ymgysylltu â newyddion da e.e. lansiad y system cyfieithu peirianyddol yn ddiweddar; ac
- Mae'r Comisiynwyr yn parhau i gydnabod eu pwysigrwydd fel arweinwyr y sefydliad. Mae proffil uwch y Llywydd a'i gwaith allgymorth yn elfen bwysig o'r gwaith hwn. Fodd bynnag, mae rhai Comisiynwyr yn dal i gredu y gellir gwneud mwy i fod yn rhagweithiol ac i godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad.

*Gwelliant parhaus ac agwedd flaengar*

13. Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd eu hunain ac am wella'u perfformiad eu hunain. Ar ben hynny, fel rhan o'u cyfrifoldebau a'u hagwedd strategol ehangach, mae angen iddynt hefyd

fod yn flaengar ac ystyried yr heriau a fydd yn wynebu'r Comisiwn newydd, ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad. Yn hyn o beth:

- Rhoddodd y Comisiwn sylw llawn i'r adolygiad cyntaf o'i effeithiolrwydd, y cyflwynwyd adroddiad yn ei gylch yn 2013. Fodd bynnag, yn y cyfamser nid yw wedi sefydlu cynllun gweithredu er mwyn ystyried sut y mae wedi symud ymlaen mewn cysylltiad ag argymhellion gwreiddiol yr adolygiad cyntaf, neu sut y mae wedi eu rhoi ar waith;
- Mae'r Comisiwn yn elwa'n sylweddol ar arbenigedd a phrofiad ei Gynghorwyr Annibynnol, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at ei ddatblygiad a'i effeithiolrwydd fel 'bwrdd llywodraethu'; ac
- Mae'r Comisiwn wedi dechrau ar y broses o gynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad ac wedi rhoi sylw i ddatblygu datganiad etifeddiaeth i gynorthwyo i lywio'r Comisiwn newydd yn dilyn etholiad Mai 2016, ac i ychwanegu gwerth ato.

**Argymhellion**

14. Bwriedir i'r argymhellion canlynol fynd i'r afael â phrif ganfyddiadau'r adolygiad hwn. Mater i'r Comisiwn yw penderfynu a yw am dderbyn yr argymhellion hyn.

(i) Pe byddai'r Comisiwn yn dymuno derbyn argymhellion yr adolygiad hwn, dylid sefydlu cynllun gweithredu i amlinellu sut y bwriedir rhoi sylw iddynt. Dylai'r camau gweithredu gael eu monitro a dylid olrhain yr hyn a gyflawnir. Defnyddir y cynllun gweithredu hwn wedyn wrth gynnal adolygiadau dilynol yn y dyfodol.

(ii) Dylid ystyried beth yn union yw'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir gan Brif Ysgrifennydd y Comisiwn cyn iddi adael dros dro, er mwyn gofalu bod y sawl sy'n cymryd ei lle yn ystod ei

chyfnod o absenoldeb yn cynnal ansawdd a lefel y gwasanaeth a ddarperir ganddi.

(iii) Dylai Comisiynwyr barhau i gymryd rhan ym mhroses y dangosyddion perfformiad allweddol. Dylent herio rheolwyr ynglŷn â chanlyniadau'r dangosyddion, a monitro ac adnewyddu'r gyfres o ddangosyddion yn rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon yn parhau i gael ei chasglu ym maes rheoli perfformiad.

(iv) Dylid treulio amser yn myfyrio ynglŷn â pha mor ddefnyddiol oedd y cyfarfod strategaeth a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2014, ac ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd yn sgil cynnal cyfarfod llai strwythuredig fel hwn. Gellid archwilio a fyddai cyfleoedd eraill i gyfarfod fel grŵp y tu allan i gyfarfodydd strwythuredig yn cynorthwyo'r Comisiwn i ddod yn fwy effeithiol fel 'bwrdd llywodraethu'.

(v) Dylid ymdrechu i nodi a chael gwared ar unrhyw ddiffyg cysylltiad rhwng y Comisiynwyr a'r Bwrdd Taliadau annibynnol. Dylai'r Comisiynwyr hefyd fanteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu'n adeiladol â'r Bwrdd Taliadau wrth iddynt godi.

(vi) Dylai'r Comisiynwyr ddatblygu'r berthynas waith effeithiol sydd ganddynt eisoes â staff uwch trwy ystyried codi eu proffil ac ymgysylltu â staff ehangach y Comisiwn. Gallai hyn gynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Recordio cyflwyniadau fideo i'w cynnwys yn y pecyn cynefino ar gyfer staff newydd i helpu i esbonio pwy ydynt a beth yw eu swyddogaeth yn y gwaith o redeg Comisiwn y Cynulliad;
- Negeseuon gan y Comisiynwyr adeg y Nadolig ac ar ddiwedd y tymor, yn diolch i'r staff am eu gwaith; ac
- Annerch cyfarfodydd yr holl staff o bryd i'w gilydd.

(vii) Dylai'r Comisiwn ystyried sut y gallai fod yn fwy rhagweithiol â'r cyfryngau (yn enwedig y wasg leol) gyda'r bwriad o'i gwneud yn llai tebygol y bydd straeon negyddol yn ymddangos, a thrwy hynny leihau'r angen am friffio amddiffynnol.

(viii) Dylai'r Comisiwn hefyd ystyried defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu ei negeseuon ac ehangu ei weithgareddau allgymorth.

(ix) Er mwyn cefnogi gwelliant parhaus ac ategu'r cyngor arbenigol sydd ar gael iddo gan y Cynghorwyr Annibynnol, dylai'r Comisiwn ystyried sefydlu rhaglen o hyfforddiant a datblygu. Gallai hyn gynnwys meysydd megis llywodraethu a goruchwylio ariannol ar gyfer Comisiynwyr er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol.

(x) Dylai'r Comisiwn gynnal ei ffocws strategol yn y flwyddyn sydd i ddod a datblygu gweledigaeth o'r etifeddiaeth y mae'n dymuno ei gadael ar gyfer Comisiwn y Pumed Cynulliad, yn ogystal â manylion yr etifeddiaeth honno.

15. Yn olaf, rwy'n argymell y dylwn adolygu'r hyn a gyflawnwyd o safbwynt yr argymhellion hyn ymhen blwyddyn, gan gynnal adolygiad arall o sylwedd cyn diddymu'r Pedwerydd Cynulliad yn y gwanwyn 2016.

**Gareth Watts**
**Pennaeth Archwilio Mewnol**
**Mai 2014**

# Adroddiad i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Adroddiad dilynol ar yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Comisiwn

## Cefndir a chwmpas

1. Mae'r Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud trefniadau i "werthuso ei effeithiolrwydd o bryd i'w gilydd".

2. Cwblheais yr ail adolygiad llawn o Effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mai 2014.

3. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu hynt gwaith y Comisiwn i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad mis Mai 2014.

4. Rwyf yn ddiolchgar i Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, am ei chymorth o ran darparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnaf i gwblhau'r adroddiad hwn.

## Crynodeb

5. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio Cynllun Gweithredu i sicrhau bod yr argymhellion o Adolygiad Mai 2014 wedi cael eu cofnodi a'u hateb yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

6. Rwyf wedi defnyddio'r Cynllun Gweithredu fel y brif ffynhonnell i gyfeirio ati wrth gynnal yr adolygiad dilynol a, lle y bo'n briodol, wedi croesgyfeirio â phapurau perthnasol o gyfarfodydd y Comisiwn i ddilysu'r camau a gymerwyd.

7. Mae'r Comisiwn wedi ymateb yn gadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a godwyd yn adroddiad mis Mai 2014.

8. Gwnaed cynnydd ym mhob maes.

9. Mae'r Comisiwn yn parhau i weithredu fel 'bwrdd llywodraethol' sy'n perfformio'n dda gyda ffocws clir ar sicrhau ei ymrwymiad i welliant parhaus.

10. Bydd yr ymrwymiad i welliant parhaus o fudd i'r Comisiwn newydd yn dilyn Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016.

**Y canfyddiadau allweddol**

11. Mae gan y Comisiwn reolaeth gref o hyd ar faterion perfformiad fel sydd i'w weld yn ei oruchwyliaeth ar y broses Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

12. Ceir tystiolaeth hefyd o linellau cyfathrebu gwell gyda rhanddeiliaid allweddol fel y Bwrdd Taliadau a staff Comisiwn y Cynulliad dros y flwyddyn ddiwethaf.

13. Mae'r Comisiwn wedi sefydlu ac wedi cynllunio rhaglen waith glir dros weddill oes y Pedwerydd Cynulliad ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar lunio Adroddiad Etifeddiaeth i Gomisiwn newydd y Cynulliad ei ddefnyddio ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol**

14. Cynhelir adolygiad pellach o effeithiolrwydd y Comisiwn ddechrau 2016, cyn diddymu'r Pedwerydd Cynulliad.

**Gareth Watts**
**Pennaeth Archwilio Mewnol**
**Mehefin 2015**

**Cynllun Gweithredu**

Derbyniodd y Comisiwn yr argymhellion yn adroddiad mis Mai 2014. Lluniodd y Comisiwn gynllun gweithredu i amlinellu sut i fynd i'r afael â'r argymhellion, ac er mwyn olrhain cynnydd.

Rwyf wedi asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a chaiff hyn ei gofnodi yn nhrydedd golofn y tabl isod.

| Argymhelliad | Cam Gweithredu i'r Comisiwn y Cytunwyd arno | Asesu Cynnydd mewn perthynas â'r Camau |
|---|---|---|
| 1 - Dylid ymchwilio i'r amrywiaeth o weithgareddau y mae Prif Ysgrifennydd y Comisiwn yn ymgymryd â nhw cyn iddi adael dros dro i sicrhau bod ei dirprwy dros dro yn cynnal ansawdd a lefel y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu yn ystod ei chyfnod o absenoldeb. | Paratoi disgrifiad newydd o'r rôl yn barod ar gyfer trefnu dirprwy. | Cadarnhaodd trafodaeth gyda Sulafa Thomas y cynhaliwyd proses drosglwyddo rhwng mis Mehefin a mis Awst 2014. Mae'r lefel uchel o wasanaeth ysgrifenyddiaeth y mae'r Comisiwn wedi parhau i'w dderbyn ers mis Medi 2014 yn dangos pa mor effeithiol oedd y broses drosglwyddo hon. |
| 2 - Dylai'r Comisiynwyr barhau i gyfrannu at y broses dangosyddion perfformiad allweddol. Dylent herio rheolwyr ar ganlyniadau dangosyddion a mynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adnewyddu'r gyfres o ddangosyddion. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth reoli berthnasol ac ystyrlon am berfformiad yn parhau i gael ei chofnodi. | Cyfarfod o'r Comisiwn i'w drefnu bob tymor i drafod ei berfformiad, yn seiliedig ar amseru'r adroddiad dangosyddion perfformiad allweddol (DPA).<br><br>Mae'r DPA wedi cael eu hadnewyddu. | Yn ystod y flwyddyn mae'r Comisiwn wedi neilltuo cyfarfodydd penodol i drafod perfformiad ym mis Medi 2014, mis Ionawr 2015 a mis Mai 2015, gyda chyfarfod pellach ar y gweill ym mis Gorffennaf 2015.<br><br>Mae cofnodion y cytunwyd arnynt ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yma yn dangos sut mae'r Comisiwn yn mynd ati i herio'r rheolwyr ar ganlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, barn y Comisiynwyr ar effeithiolrwydd sut y maent yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | cael eu cyflwyno a'r angen i wella ac adnewyddu'r dangosyddion mewn rhai meysydd. |
| 3 - Dylid cymryd amser i ystyried pa mor ddefnyddiol oedd cyfarfod strategaeth mis Ebrill 2014 a'r gwersi a ddysgwyd o brofiad y cyfarfod llai strwythuredig hwn. Ymchwilio a allai cyfleoedd eraill i gyfarfod fel grŵp y tu allan i gyfarfodydd strwythuredig wella effeithiolrwydd y Comisiwn fel y 'bwrdd llywodraethol'. | Dywedodd y Comisiynwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r profiad.<br><br>Cytunwyd ar ail ddiwrnod 'cwrdd i ffwrdd'. | Mae fy nhrafodaethau gyda Sulafa Thomas yn datgelu bod y Comisiwn yn parhau'n ymrwymedig i fanteisio ar gyfleoedd i fod yn fwy effeithiol a chydlynus fel 'bwrdd llywodraethol' y tu allan i'r amgylchedd cyfarfod strwythuredig.<br><br>Yn ystod y cyfnod:<br>• Aeth aelodau'r Comisiwn ar ymweliadau â Chanada a Brwsel yn ystod hydref 2014;<br>• Canslwyd diwrnod cwrdd i ffwrdd oedd wedi cael ei drefnu (am resymau nad oedd modd eu rhagweld) ond mae'r Comisiynwyr yn parhau i ddod ynghyd fel grŵp y tu allan i'r cyfarfodydd strwythuredig;<br>• Ymweliad â Bosnia-Herzegovina ym mis Ebrill 2015; ac<br>• Mae ymweliad â Phatagonia ar y gweill ar gyfer hydref 2015. |
| 4 - Dylid ymdrechu i adnabod a chael gwared ar unrhyw wahaniadau rhwng y Comisiynwyr a'r Bwrdd Taliadau annibynnol. Dylai'r Comisiynwyr hefyd fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi i ymgysylltu'n adeiladol â'r Bwrdd Taliadau. | Gwella'r ffordd y mae'r Comisiwn yn arwain y cyfathrebu rhwng y ddau gorff. | Roedd aelodau'r Bwrdd Taliadau yn bresennol yng nghyfarfod y Comisiwn ar 3 Tachwedd 2014, a chafwyd trafodaethau adeiladol. Cytunodd y ddau fwrdd i gyfarfod eto ar adeg briodol.<br><br>Mae rhyngweithio hefyd yn parhau drwy ohebiaeth. Gallai'r Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau ystyried manteisio ar y cyfle a allai godi yn sgil penodi Bwrdd Taliadau newydd a Chomisiwn newydd y Cynulliad dros y deuddeg mis nesaf. Wedi i'r ddau fwrdd gael |

| | | |
|---|---|---|
| | | eu sefydlu'n llawn, mae potensial ar gyfer ymgysylltu'n gynnar a meithrin perthynas waith adeiladol, o fewn fframwaith eu rolau priodol, ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddau Fwrdd. |
| 5 - Dylai'r Comisiynwyr adeiladu ar y berthynas waith effeithiol sydd ganddynt eisoes â staff uwch drwy ystyried codi eu proffil ac ymgysylltu â chymuned ehangach staff y Comisiwn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:<br>• Recordio cyflwyniadau fideo i'w cynnwys yn y trefniadau cynefino ar gyfer staff newydd i helpu i esbonio pwy ydynt a'r rôl y maent yn ei chwarae o ran cynnal Comisiwn y Cynulliad;<br>• Negeseuon gan y Comisiynwyr adeg y Nadolig ac ar ddiwedd y tymor yn diolch i'r staff am eu gwaith; ac<br>• Annerch pob cyfarfod staff yn rheolaidd. | Diweddaru'r trefniadau cynefino corfforaethol<br><br>Ystyried trefniadau ar gyfer gwella rhyngweithio gyda staff a rhoi adborth iddynt. | Cytunodd y Bwrdd Rheoli ar drefniadau cynefino corfforaethol newydd ym mis Awst 2014.<br>Mae'r Llywydd a'r Comisiynwyr wedi bod yn bresennol ym mhob cyfarfod a brecwast hwyr ar gyfer staff. Maent hefyd yn gefnogwyr brwd o rwydweithiau cefnogi staff fel OUT-NAW ac Inspire.<br>Mae adborth ar agweddau penodol ar yr adroddiad cryno wedi'i gynnwys yn y Nodyn i aelodau a staff, wedi iddo gael ei drafod yn un o gyfarfodydd y Comisiwn (mewn ymateb i awgrym i'w wneud yn adnodd mwy cyflawn). |
| 6 - Dylai'r Comisiwn ystyried sut y gallai fod yn fwy rhagweithiol gyda'r cyfryngau (yn enwedig y wasg leol) gyda'r bwriad o leihau'r tebygolrwydd o straeon negyddol ac felly'r angen am friffio amddiffynnol. | Ceisio targedu deunyddiau priodol at gynulleidfaoedd penodol.<br>Gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol (Cyfeirio at bwynt 7 isod). | Mae'r Comisiwn wedi ymgorffori cyfathrebu yn y broses yn gynt er mwyn gallu ymateb yn rhagweithiol i gyfleoedd cyfathrebu a pheryglon posibl fel ei gilydd. Gofynnir am gyngor fel mater o drefn gan Reolwr Cyfryngau y Llywydd, a chynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd yn canolbwyntio ar bob cyfarfod y |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystyried cynnwys hyfforddiant priodol mewn rhaglen o hyfforddi a datblygu (Cyfeirio at bwynt 8 isod). | Comisiwn. |
| 7 - Dylai'r Comisiwn hefyd ystyried defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu ei negeseuon ac ehangu ei weithgareddau allgymorth. | Adolygu'r polisi cyfryngau cymdeithasol. | Cynhaliwyd adolygiad o'r polisi cyfryngau cymdeithasol yn ystod haf 2014. Trafodwyd hyn gan y Pwyllgor ym mis Medi 2014.<br><br>Dangosodd y Comisiynwyr ddiddordeb brwd yn y maes pwysig, gan drafod effaith y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o sbectrwm o weithgareddau ymgysylltu, nid rhywbeth i'w wneud ar wahân. Gwnaethant nodi fod trydariadau'r Cynulliad yn fwy gwerthfawr pan fyddant yn cysylltu â Senedd.tv a gwefannau defnyddiol eraill. |
| 8 - Er mwyn cefnogi gwelliant parhaus ac ategu'r cyngor arbenigol sydd ar gael gan Ymgynghorwyr Annibynnol, dylai'r Comisiwn ystyried sefydlu rhaglen o hyfforddi a datblygu. Gallai hyn gynnwys meysydd megis llywodraethu a goruchwylio ariannol er mwyn i'r Comisiynwyr sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol. | Ystyried sefydlu rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) i Gomisiynwyr yn y dyfodol. | Gall y Comisiynwyr fanteisio ar y rhaglen DPP bresennol.<br><br>Mae'r tîm DPP yn mynd ati i ymchwilio i fanylion y DPP i Gomisiynwyr newydd y Pumed Cynulliad, ar gais aelodau presennol y Comisiwn. |
| 9 - Dylai'r Comisiwn gynnal ei ffocws strategol yn y flwyddyn sydd i ddod a datblygu gweledigaeth a manylion clir ynghylch yr etifeddiaeth y mae'n dymuno ei gadael ar gyfer Comisiwn y Pumed | Mae blaenraglen waith yn manylu ar sut caiff gweithgareddau eu cynnal yn y flwyddyn i ddod.<br><br>(Hefyd yn cyfeirio at bwynt 3 uchod) | Mae manylion y cynlluniau ar gyfer gwaith yn y dyfodol i'w gweld yn y flaenraglen waith dreigl.<br><br>Mae'r Comisiwn yn bwriadu llunio adroddiad etifeddiaeth cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. |

Cynulliad.

# Adroddiad cryno ar Gynghorwyr Annibynnol

## Cefndir

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, corff corfforaethol yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae eu hangen at ddibenion y Cynulliad. Mae'r Comisiynwyr hefyd yn gyfrifol am lywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad a enwebir gan eu pleidiau.

2. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol i lywio gwaith y Comisiwn a'i staff.

3. Er mwyn sicrhau y gall y Comisiynwyr ac uwch swyddogion fanteisio ar amrywiaeth eang o brofiad i'w cynorthwyo i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn, mae'r Comisiwn wedi penodi Cynghorwyr Annibynnol i weithredu ar sail anweithredol annibynnol.

4. Mae'r Comisiwn yn disgwyl i'r Cynghorwyr Annibynnol gynnig her adeiladol ar draws holl fusnes y Comisiwn gyda'r bwriad o sicrhau bod pob agwedd ar strategaeth a darpariaeth yn destun craffu o safbwynt effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Maent yn cyfrannu at y gwaith o fonitro perfformiad a datblygiad y sefydliad, gan gynnwys y defnydd o adnoddau dynol ac ariannol, ac yn cynnal trosolwg beirniadol o reolaethau a gweithdrefnau ariannol y sefydliad.

5. Fel rhan o'i ddiwydrwydd dyladwy, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnal adolygiadau effeithiolrwydd dienw rheolaidd a thrylwyr gyda Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol. Roedd y canlyniad yn 2014 yn gadarnhaol iawn. Bydd yr adolygiad yn cael ei ailadrodd yn ddiweddarach yn 2015.

## Meysydd Cyswllt Allweddol â Chomisiwn y Cynulliad

### Keith Baldwin

- Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – wedi mynychu 12 o'r 14 o gyfarfodydd ers cael ei benodi
- Aelod o'r Pwyllgor Taliadau – wedi mynychu 2 o'r 3 o gyfarfodydd ers cael ei benodi
- Wedi mynychu 2 gyfarfod o'r Bwrdd Rheoli (Chwefror 2013 a Chwefror 2014) i gynnig her yn y trafodaethau ar y Datganiad Llywodraethu
- Wedi cymryd rhan yn y broses o recriwtio'r Pennaeth Archwilio Mewnol (Mai 2013)
- Mentora'r Pennaeth Archwilio Mewnol (Chwefror 2014 ymlaen)
- Cynnig her i'r Cyfarwyddwr Cyllid – ar y system gyllid newydd o fis Ebrill 2015

### Helena Feltham

- Cadeirydd Pwyllgor Taliadau Comisiwn y Cynulliad (wedi mynychu 3 o'r 3 o gyfarfodydd ers ei phenodi)
- Mynychu cyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad (wedi bod mewn 9 cyfarfod ers cael ei phenodi)
- Wedi cymryd rhan yn y broses o recriwtio'r Pennaeth Adnoddau Dynol (Ionawr 2014)

- Wedi cymryd rhan yn y broses o recriwtio aelodau i'r Bwrdd Taliadau newydd (Mehefin a Gorffennaf 2015)

**Eric Gregory**

- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ers mis Tachwedd 2013; aelod ers mis Tachwedd 2012) – wedi mynychu 14 o'r 14 o gyfarfodydd ers cael ei benodi i'r Pwyllgor
- Aelod o'r Pwyllgor Taliadau
- Wedi mynychu tri o gyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad ers cael ei benodi
- Wedi mynychu'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau i gynnig her wrth symud i Gam 2 y Prosiect Cyflogres – Adnoddau Dynol
- Wedi cymryd rhan yn y broses o benodi'r Pennaeth Seilwaith TGCh
- Wedi cynghori ynglŷn â'r prosiect Trawsnewid TGCh, yr adroddiad ar berfformiad corfforaethol, a rheoli'r portffolio newid
- Wedi trefnu cyflwyniad gan un o uwch swyddogion Swyddfa'r Cabinet ar Raglenni Newid Llwyddiannus

**Crynodeb Cyffredinol**

6. Rwyf o'r farn bod dull y Comisiwn o benodi a defnyddio Cynghorwyr Annibynnol yn rhoi gwerth da am arian. Mae'r Cynghorwyr yn derbyn tâl bychan iawn o £5,000 am 10-15 diwrnod o waith y flwyddyn, gyda thaliadau ychwanegol i gydnabod cyfrifoldebau ychwanegol (e.e. £2,000 ychwanegol am gadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg). Ceir digon o dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorwyr hyn yn rhoi mwy o amser i'r swydd na'r hyn a ddisgwylir yn eu contractau, ac maent ar gael i staff y Comisiwn gysylltu â nhw dros y ffôn ac e-bost y rhan fwyaf o'r amser. Mae'r modd y cânt eu penodi yn dangos yn glir ei bod yn drefn effeithlon oherwydd bod ganddynt berthynas barhaus â'r Comisiwn dros gyfnod rhesymol o amser yn hytrach na bod rhaid i'r

Comisiwn gynnal prosesau rheolaidd i recriwtio, dethol neu gaffael Cynghorwyr.

7. Mae sylwadau gan randdeiliaid yn cadarnhau pa mor effeithiol yw'r Cynghorwyr, gan gynnwys rhai sy'n nodi bod y Cynghorwyr yn:

- rhoi her gadarn i benderfyniadau busnes ac yn cymryd diddordeb brwd a gwerthfawr ym mhob agwedd ar sicrwydd a rheoli risg;
- dod â sgiliau a phrofiad o'u gyrfaoedd proffesiynol, gan gynnwys wrth reoli prosiectau cymhleth ar lefel genedlaethol;
- dangos diwydrwydd ac ymrwymiad i'r swydd, gan gyfrannu a gwneud sylwadau o sylwedd bob amser;
- cefnogol o'r staff, gan gynnig eu persbectif eu hunain ac ysgogi rhagor o drafodaeth ac ystyriaeth;
- gweithredu fel Cadeiryddion cryf ac awdurdodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau.

8. Mae eu cyfranogiad parhaus yn eu galluogi i feithrin eu dealltwriaeth o'r sefydliad, gan ddod yn fwy effeithiol yn sgil hynny. Mae pob un o'r tri Chynghorydd a adolygwyd wedi gadael ei ôl yng Nghomisiwn y Cynulliad a heb eithriad wedi dangos ei ymrwymiad i'w swydd. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd maent i gyd yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r hyn y mae'r Comisiwn yn ei ddisgwyl gan Gynghorwyr Annibynnol.

9. Bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn arweinyddiaeth Comisiwn y Cynulliad yn fuan. Bydd y Comisiwn yn recriwtio Prif Weithredwr a Chlerc newydd yn ystod y flwyddyn nesaf, ac yn 2016 penodir Comisiynwyr newydd, Llywydd newydd ac, o bosibl, Ddirprwy Lywydd newydd.

10. Bydd y Cynghorwyr Annibynnol yn parhau i fod yn ffynhonnell gyfoethog y gall y Comisiwn fanteisio arni i gael cyngor ac arweiniad. Ar yr adeg hollbwysig hon yn natblygiad y Comisiwn, mae'n bosibl y bydd y parhad a'r wybodaeth y gallai'r tri Chynghorydd Annibynnol hyn eu darparu yn y dyfodol, fod o werth sylweddol i'r Comisiwn.

11. Fodd bynnag, dylai pwysigrwydd parhad hefyd gael ei ystyried ochr yn ochr ag ymrwymiad cyson Comisiwn y Cynulliad i ragoriaeth ym mhopeth a wna, a'r arbenigedd posibl y gallai Cynghorwyr newydd â gwahanol gefndiroedd a phrofiadau hefyd ei gyfrannu yn y blynyddoedd sydd o'n blaenau.

**Gareth Watts**

**Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Gorffennaf 2015**

D.S. Yn dilyn yr adolygiad hwn, adnewyddwyd contractau ar gyfer tri Chynghorydd Annibynnol am dair blynedd arall, yn unol â thelerau gwreiddiol y penodiad.

# Cynghorwyr Annibynnol

## Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Ymrwymiad o ran amser:** 15 diwrnod y flwyddyn
**Cyfnod y penodiad:** 3 blynedd
**Lleoliad:** Caerdydd
**Cyflog:** £5,000 y flwyddyn
**Dyddiad cau:** Dydd Llun 3 Medi

Mae dau gyfle ar gael i fod yn Gynghorwyr Annibynnol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y ddau ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn dod yn aelodau o Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad.

### Cefndir:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yw’r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Crëwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Comisiwn") gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a daeth i fodolaeth ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2007. Ei brif swyddogaeth statudol yw darparu Cynulliad Cenedlaethol Cymru â’r staff, eiddo a gwasanaethau sy’n ofynnol i gyflawni ei waith yn effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd - y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall, un o bob un o'r prif bleidiau gwleidyddol. Mae'r Comisiwn yn cyflogi tua 350 aelod o staff sy'n gwasanaethu'r Cynulliad. Pennaeth y Comisiwn yw'r Prif Weithredwr a'r Clerc, sydd hefyd yn Brif Swyddog Cyfrifyddu. Mae gan y Comisiwn gyllideb flynyddol o tua £50 miliwn. Mae gan y Comisiwn bedwar cynghorydd annibynnol, a bydd dau ohonynt yn rhoi'r gorau i'r gwaith hwn yn nhymor yr hydref 2012. Bydd y ddau gynghorydd annibynnol arall (Mair Barnes a Richard Calvert) yn cael eu disodli yn nhymor yr hydref 2013.

### Rolau a Chyfrifoldebau Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn am benodi dau gynghorydd annibynnol a fydd yn gweithredu mewn capasiti anweithredol wrth gynghori Comisiynwyr ac uwch reolwyr ar fusnes y Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod gweithrediadau a gwasanaethau yn cael eu darparu mewn modd effeithlon ac effeithiol;
- defnyddio technoleg gwybodaeth ac adnoddau eraill mewn modd arloesol;
- gwneud gwaith llywodraethu corfforaethol a rheoli risg.

Bydd y cynghorwyr sy'n cael eu penodi o ganlyniad i'r broses hon yn aelodau o Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn. Rôl gynghorol sydd gan y Pwyllgor, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Rôl y Pwyllgor yw cynnig cyngor a chefnogaeth i'r Comisiwn a Phrif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, mewn perthynas â’i chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu.

Mae’r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys dyletswydd i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn modd cyson a phriodol gan sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi cyngor ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaethau mewnol, gan gynnwys sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod yn gywir a'u rheoli.  Mae'r Pwyllgor yn cwrdd pedair neu bum gwaith y flwyddyn.

Yn ogystal â bod yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, byddai gofyn i'r cynghorwyr gyfrannu mewn ffyrdd sy'n gwneud y defnydd gorau o'u profiadau a'u galluoedd. Gallai'r cyfrifoldebau hyn gynnwys:

- mynychu cyfarfodydd y Comisiwn (gan gynnwys cyfarfodydd preifat y Comisiynwyr);
- bod yn gyfrwng cyfathrebu a rhoi cyngor i'r Llywydd, i Gomisiynwyr neu i uwch reolwyr y Comisiwn;
- cyfrannu at yr adolygiad o sut i wella perfformiad yn fewnol;
- cynorthwyo mewn meysydd penodol lle mae gan y cynghorydd annibynnol arbenigedd neu brofiad penodol.

## Manyleb y Person

Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth sy'n dangos bod ganddynt y profiad perthnasol i gyflawni rolau a chyfrifoldebau'r swydd hon.

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus gyfrannu at y broses o ddatblygu gwaith a chynllunio strategol y Comisiwn. Rydym felly'n chwilio am ymgeiswyr sydd â phrofiad mewn un neu fwy o'r meysydd a ganlyn:

- rhoi arweiniad strategol ac ar lefel y bwrdd mewn sefydliad sy'n darparu gwasanaethau;
- galluogi trawsnewid sy'n arloesol ac sy'n cael ei arwain gan y cwsmer;
- llywodraethu corfforaethol, rheoli ariannol a rheoli risg;
- gwella safonau perfformiad o fewn sefydliad;
- gweithredu mewn capasiti anweithredol.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu darparu tystiolaeth:

- o'u gallu i gyfrannu mewn modd cadarnhaol i waith sefydliad, a hynny mewn capasiti anweithredol;
- o'u gallu i gynnal gweledigaeth a ffocws strategol;
- o'r bersonoliaeth a'r gallu sydd eu hangen i ennyn parch Comisiynwyr ac Aelodau'r Cynulliad ac i ddwyn dylanwad arnynt;
- o'u hymwybyddiaeth o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a'u gallu i weithredu mewn amgylchedd gwleidyddol.

## Telerau'r penodiad

### Tâl

£5,000 y flwyddyn (nad yw'n bensiynadwy).  Disgwylir i'r ymrwymiad i'r swydd fod tua 15 diwrnod y flwyddyn.

### Hyd

Bydd pob penodiad am dymor o dair blynedd. Gellir adnewyddu'r penodiad am dair blynedd arall yn amodol ar werthuso perfformiad boddhaol.

## Lleoliad:

Cynhelir y cyfarfodydd yn swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

## Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol

Er mwyn lleihau'r risg o wrthdaro buddiannau, ni fydd modd ystyried rhai unigolion ar gyfer eu penodi.  Y rhain yw:

- Aelodau'r Cynulliad neu ddarpar ymgeiswyr i fod yn Aelodau'r Cynulliad;
- Aelodau etholedig o gyrff seneddol eraill y DU;
- Aelodau o staff Comisiwn y Cynulliad neu staff Llywodraeth Cymru a phobl a gaiff eu cyflogi gan Aelodau'r Cynulliad neu grŵp o Aelodau'r Cynulliad;
- Aelodau o Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Y Cwnsler Cyffredinol (pan nad yw'n Aelod Cynulliad);
- Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Unigolyn sy'n cyflawni swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Llywodraeth Cymru.

## Y Broses Ddethol

Bydd Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn gwneud trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi.  Wrth wneud hyn, bydd yn rhoi sylw dyledus i'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Bydd y panel penodi yn cymharu'r ceisiadau yn erbyn y meini prawf a amlinellir ym manyleb y person. Bydd y panel yn penderfynu ar restr fer o ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i ymddangos gerbron panel dethol cyn diwedd mis Medi 2012. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i gwrdd â Llywydd y Cynulliad a'r Comisiynwyr ym mis Hydref 2012, er mwyn rhoi cyfle iddynt wneud penderfyniad terfynol.

Y gobaith yw y bydd y penodiadau'n cael eu gwneud yn gynnar ym mis Tachwedd, gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau ar eu gwaith yn syth.

## Y Broses o Wneud Cais:

- Cyflwyno ffurflen gais, CV a ffurflen fonitro Cyfleoedd Cyfartal i WIG.  Gallwch lwytho ffurflen ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol / ffurflen Cyfle Cyfartal oddi ar: www.wig.co.uk/naw

- Mae Comisiwn Cynulliad Cymru yn gweithredu cynllun 'Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl' ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau.   Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Pe bai hyn yn berthnasol i chi, gallwch lwytho ffurflen y Cynllun Gwarantu Cyfweliad oddi ar: www.wig.co.uk/naw

- Llunio rhestr fer o geisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau ;
- Cyfweliadau ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer, gan anelu at yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn ei swydd ym mis Tachwedd 2012.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyfle hwn, cysylltwch â Kathryn Brown yn WIG ar 020 7222 1166 neu anfonwch e-bost at nonexecutive@wig.co.uk

## Datganiad Cydraddoldeb

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn annog a chroesawu'n benodol ceisiadau gan ymgeiswyr o grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal - sy'n golygu ein bod o'r farn y dylai pawb gael yr un cyfleoedd o ran cyflogaeth a dyrchafiad, ar sail eu gallu, eu cymwysterau, a'u haddasrwydd ar gyfer y swydd. Ni ddylai neb gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hil, rhyw, rhywioldeb, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, statws HIV, teulu neu gyfrifoldebau domestig, na'u patrymau gwaith, er enghraifft, gweithio'n rhan-amser. Ac ni ddylai neb fod o dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir profi eu bod yn gyfiawn.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

**At:** Y Comisiynwyr

**Gan:** Claire Clancy

**Dyddiad:** 10 Hydref 2012

## Penodi Cynghorwyr Annibynnol i'r Comisiwn

(D.S. tynnwyd gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr na chawsant eu penodi o'r fersiwn hon o'r papur)

### Argymhelliad

1. **Gwahoddir y Comisiynwyr i gytuno i benodi cynghorwyr annibynnol newydd yn dilyn y broses recriwtio ddiweddar.**

### Cefndir

2. Yn fy nodyn i chi dyddiedig 14 Mai, esboniais y bydd dau o Gynghorwyr Annibynnol y Comisiwn yn rhoi'r gorau i'r swydd ym mis Tachwedd eleni. Maent yn aelodau o Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn ac felly mae'n rhaid cael unigolion sydd â phrofiad llywodraethu perthnasol yn eu lle. Yn wreiddiol, y bwriad oedd penodi dim ond y ddau Gynghorydd annibynnol hyn. Fodd bynnag, gan fod gennym ymgeiswyr cryf, ac i arbed amser, ymdrech a chost gorfod ailadrodd y broses benodi pan fydd ein dau gynghorydd arall yn rhoi'r gorau i'w swydd y flwyddyn nesaf, rydym yn argymell ein bod yn penodi pedwar cynghorydd newydd nawr. Byddwn yn cyflwyno'r cynghorwyr newydd yn raddol dros y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau proses drosglwyddo esmwyth; bydd yn costio llai i benodi'r ddau gynghorydd ychwanegol nag i ailadrodd yr ymgyrch recriwtio'r flwyddyn nesaf.

3. Rhoddir disgrifiad o'r broses benodi yn Atodiad Un er gwybodaeth ichi.

4. Rydym yn cynnig y dylid gwneud cynigion i'r ymgeiswyr. Pe byddai'n well gennych eu cyfarfod eich hunain cyn cynnig y penodiadau iddynt, rhowch wybod i mi a byddwn yn gwneud trefniadau ar gyfer hynny. Fel arall, byddwn yn trefnu i chi eu cyfarfod ar ddyddiad cyfleus ar ôl iddynt gael cynnig y penodiad - mae'r Llywydd wedi gofyn inni eu gwahodd i gael cinio gyda chi.

**Ymgeiswyr yr argymhellir eu penodi**

5. Ystyriodd y panel dethol yr holl dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgeiswyr ac mae'n argymell y dylid cynnig swydd Cynghorydd Annibynnol i'r ymgeiswyr a ganlyn. Argymhellodd y panel na ddylai'r ymgeiswyr sy'n weddill gael cynnig swydd - dangosir yr ymgeiswyr hyn yn Atodiad Dau (D.S. nid ydynt wedi'u cynnwys yn y fersiwn hon o'r papur).

| Ymgeisydd | Nodiadau |
|---|---|
| Helena Feltham<br><br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol,<br>Jack Wills Ltd. | • Mae wedi cyflawni tair swydd ar lefel bwrdd gweithredol yn y sector manwerthu.<br>• Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol i Jack Wills Ltd. – roedd ganddi rôl strategol o bwys o ran sbarduno twf sylweddol.<br>• Partner gydag Odgers Ray and Bernedtson – cwmni recriwtio swyddogion gweithredol<br>• Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i Woolworth's De Affrica rhwng 2003 a 2005.<br>• Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i Marks & Spencer rhwng 1990 a 2003.<br>• Cyfarwyddwr anweithredol yn ymddiriedolaeth GIG Caersallog am bedair blynedd er 1996 - gan helpu i ymwreiddio strwythur newydd a chefnogi'r Tîm Gweithredol ar adeg o newid radical. |
| Eric Gregory<br><br>Portffolio o swyddi anweithredol | • Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol gyda Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau'r Swyddfa Gartref a chyda Rhaglen Trawsnewid Cofrestru Etholiadol Swyddfa'r Cabinet.<br>• Mae newydd gwblhau tair blynedd fel cyfarwyddwr anweithredol ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron ac mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd y Pwyllgor Newid, Risg ac Archwilio, ac yn aelod o'r Bwrdd Ailstrwythuro (3 safle).<br>• Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (ac Aelod o'r Bwrdd) ar gyfer Partneriaeth John Lewis rhwng 2007 a 2009. |

| | |
|---|---|
| | • Gyrfa gyda John Lewis er 1998, gan gynnwys swyddi fel Cyfarwyddwr TG a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfrifiadurol. Gyrfa yn gynharach ym maes rhaglennu TG. |
| Keith Baldwin<br><br>Aelod Anweithredol o Fwrdd CVQO Ltd. ac Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin | • 20 mlynedd fel partner yn PricewaterhouseCoopers (PWC), yn fwyaf diweddar fel Dirprwy Bartner yn gyfrifol am wasanaethau ymgynghori i'r Llywodraeth.<br>• Yn ogystal, bu'n arwain y gwaith rheoli risg ym musnes cynghori PWC.<br>• Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol i CVQO Ltd. (sy'n helpu pobl ifanc i gael cymwysterau galwedigaethol) er 2010.<br>• Aelod anweithredol o Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin er 2010.<br>• Cyfarwyddwr anweithredol y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder) rhwng 2007 a 2011. |
| D.S. Detholwyd un ymgeisydd arall ond ni dderbyniodd y swydd. | |

**Atodiad Un**

**Y broses recriwtio**

Cafodd y swydd wag ei hysbysebu yn y mannau canlynol:

Whitehall and Industry Group
Western Mail
Y Daily Post
Safleoedd rhyngrwyd a mewnrwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwefan Llywodraeth Cymru
Cronfa ddata ganolog Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus

Y panel dethol oedd:

- Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad - Cadeirydd
- Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
- Mair Barnes - Cynghorydd Annibynnol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhestr Fer

Derbyniwyd 65 o geisiadau, ac aeth y Whitehall and Industry Group ati i roi'r ymgeiswyr mewn categorïau A, B ac C i ddechrau, yn seiliedig ar eu profiad perthnasol gan ddefnyddio'r meini prawf ym Manyleb y Swydd a'r Person.

Lluniwyd y rhestr fer derfynol gan y panel dethol ar 11 Medi 2012, a gwahoddwyd 11 o ymgeiswyr i'r broses ddethol.

I alluogi'r ymgeiswyr i fanteisio i'r eithaf ar y broses ddethol, darparwyd ystod o wybodaeth cyn y cyfweliad. Roedd hyn yn cynnwys

Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad
Y prif faterion ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad
Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012-13
Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2011-2012
Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Roedd y broses ddethol wedi ei chynllunio i ganfod pobl sydd â phrofiad eang ym myd busnes, diwydiant a sectorau eraill. Dechreuodd y panel dethol ar y gwaith gyda'r nod o benodi dau gynghorydd â chefndir ariannol cadarn a dau a fyddai'n cynnig profiad busnes eang wedi'i ennill o fewn sefydliadau o'r radd flaenaf neu rai sy'n arddangos arfer gorau.

Cynhaliwyd y broses ddethol ar 26 a 27 Medi, gyda dyddiadau ychwanegol ar 4 a 9 Hydref i ddarparu ar gyfer dau ymgeisydd.  Roedd y broses yn cynnwys cyfweliadau anffurfiol â'r panel. Yn ystod y trafodaethau hyn gofynnwyd amryw o gwestiynau i'r ymgeiswyr i'w galluogi i ddangos i aelodau'r panel eu bod yn addas ar gyfer y swydd.

Yn union cyn y cyfweliad, cyfarfu rhanddeiliaid amrywiol o fewn y sefydliad â'r ymgeiswyr i roi gwybodaeth gefndir ychwanegol iddynt am y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Archwilio.

Cynhaliodd y panel dethol adolygiad o'r holl ymgeiswyr.  Roedd hyn yn cynnwys adborth gan y rhanddeiliaid a oedd wedi cwrdd â'r ymgeiswyr cyn yr adolygiad.